

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a
Sgiliau
Datblygu Trafnidiaeth Cymru yn y
dyfodol
EIS(5) FDTfW14
Ymateb gan Comisiynydd Pobl Hŷn
Cymru

National Assembly for Wales
Economy, Infrastructure and Skills
Committee
The future development of Transport
for Wales
Evidence from Older People's
Commissioner for Wales

Diolch i chi am y cyfle i ymateb i'ch ymgynghoriad ynghylch rôl Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol o ran darparu polisi trafniadaeth, yn benodol yn gysylltiedig â'r cyfrifoldebau ychwanegol y dylai eu hysgwyo a sut ddylai'r rhain integreiddio â rôl Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol ac awdurdodau trafniadaeth rhanbarthol newydd.

Yn aml, ystyrir trafniadaeth gyhoeddus a chymunedol fel elfen hanfodol gan bobl hŷn, gan ddarparu mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol, yn enwedig i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Hefyd, mae trafniadaeth gyhoeddus a chymunedol yn gwneud cyfraniad sylweddol at iechyd a lles pobl hŷn, gan eu helpu i gynnal eu hannibyniaeth yn hirach a chymryd rhan mewn bywyd cymunedol.

Mae fy swyddfa i wedi cael cyfarfod gyda Thrafnidiaeth Cymru yn ddiweddar fel rhan o'i ffrwd waith integredig yn darparu trafniadaeth ymatebol i alw, sy'n rhan o'i adolygiad o wasanaethau bws ledled Cymru. Mae'r profiad O'r gwaith hwn hyd yma wedi bod yn un o gydweithredu a bod yn agored, sydd wedi galluogi aelodau i rannu syniadau arloesol a helpu fel sail i ffordd integredig a chydweithredol ymlaen.

Bydd dull O'r fath o weithredu'n hanfodol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod os ydym am wella trafniadaeth gyhoeddus yn y ffyrdd a amlinellir yn ymgynghoriad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, 'Gwellu trafniadaeth gyhoeddus', ac rydw i'n teimlo y bydd gan Drafnidiaeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae mewn gwireddu'r cynlluniau hynny.

Byddai cyfrifoldebau ar lefel Cyd-awdurdod Trafnidiaeth genedlaethol, yn gweithio ochr yn ochr â'r Awdurdodau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd, yn ffordd resymegol ymlaen er mwyn elwa o sgiliau a phrofiad Trafnidiaeth Cymru. Byddai'r Cyd-awdurdod Trafnidiaeth a'r Awdurdodau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd yn elwa'n fawr o wybodaeth ac arbenigedd Trafnidiaeth Cymru'n gysylltiedig â goruchwyllo cynllunio rhwydwaith, caffael, rhyddfrenio, diweddarau a chanoli swyddogaeth swyddfa gefn a systemau tocynnau, a hwyluso gwaith partneriaeth.

Hefyd gallai profiad Trafnidiaeth Cymru o waith partneriaeth gydag awdurdodau lleol arwain at fanteision eraill, fel sicrhau bod cynigion trafniadaeth gyhoeddus yn cyd-fynd â chynlluniau a chynigion lleol o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013,

gan helpu i sicrhau bod pobl h9n yn gallu defnyddio llwybrau i gerddwyr a llwybrau eraill at safleoedd bws hwylus yn ddiogel a gyda hyder.

ⁱ https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-12/improving-public-transport_O.pdf